

SYMUD YGG LLYN Y FORWYN



I ADEILAD NEWYDD

FERSIWN I BLANT A
PHOBL IFAINC



BETH YDW I'N GWYBOD?

**Rydyn ni am siarad â chi
am rai newidiadau newydd
cyffrous a allai fod yn digwydd
i'ch ysgol chi.**



YNGLŶN Â'CH YSGOL

Mae YGG Llyn y Forwyn yn ysgol Gymraeg ar Deras y Darren, Glynrhedynog.

Mae'r ysgol yn ddigon mawr i gael 197 o blant ynddi hi, ac ar hyn o bryd, mae 156 o blant yn mynd i'r ysgol, gyda 26 o blant ychwanegol yn y feithrinfa.



PAM MAE ANGEN I'R YSGOL NEWID?



Mae'n hen ysgol gyda llawer o risiau ac iard serth. Mae'r grisiau yn ei gwneud hi'n anodd i rai pobl gyrraedd yr ysgol, felly hoffen ni roi ysgol newydd i chi heb unrhyw risiau er mwyn i bawb ei chyrraedd.



Os ydych chi eisiau chwarae pêl-droed a phêl-rwyd mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r parc. Hoffen ni roi ysgol newydd i chi gydag iard fflat er mwyn i chi allu chwarae gemau pêl y tu allan.



Does dim maes parcio i'ch athrawon chi, a does dim lle arbennig i'r bysiau eich gollwng chi yn y bore a'ch casglu gyda'r prynhawn.



Hoffen ni roi ystafelloedd dosbarth newydd a lliwgar i chi gyda chyfrifiaduron newydd ar gyfer eich gwersi. Hoffen ni roi ystafelloedd modern i'ch athrawon chi eich dysgu chi ac ystafell staff newydd.




PA NEWID SY'N DIGWYDD?

Bydd yr ysgol newydd ychydig yn fwy na'ch ysgol chi a bydd yn ddigon mawr i 210 o ddisgyblion. Gobeithio y bydd rhagor o blant eisiau dod i'r ysgol newydd yma a dysgu Cymraeg.



LLEOLIAD NEWYDD

Hoffen ni adeiladu ysgol a man chwarae newydd i chi ar safle 'Ffatri Chubb'.



EDRYCH AR Y DEWISIADAU



Roedden ni'n trafod peidio â newid eich ysgol



Sut mae hyn yn helpu?

Mae'n golygu bod yr ysgol yn aros yr un peth i chi



Sut dyw hyn DDIM yn helpu?

Mae angen i rai rhannau o'ch ysgol gael eu trwsio



Roedden ni'n meddwl am adeiladu ysgol newydd yn yr un lle mae'ch ysgol chi nawr.



Sut mae hyn yn helpu?

Byddai'r dewis yma yn golygu y byddai'ch taith chi i'r ysgol yn aros yr un peth








Sut dyw hyn DDIM yn helpu?


Byddai'r dewis yma wedi tarfu ar eich dysgu a byddai gyda chi lawer o risiau ac iard serth o hyd

FELLY, FE BENDERFYNON NI MAI'R DEWIS GORAU OEDD ADEILADU YSGOL NEWYDD MEWN LLE NEWYDD.

Sut mae hyn yn helpu?

-  iard wastad
-  ystafelloedd dosbarth newydd lliwgar
-  ystafell staff newydd i'r athrawon
-  arhosfan bysiau i fysiau eich gollwng a chasglu
-  pethau mwy modern yn yr ysgol i chi i gyd eu mwynhau

Sut dyw hyn DDIM yn helpu?

-  Bydd yr ysgol mewn lle gwahanol sy'n golygu y bydd taith rhai ohonoch chi i'r ysgol tipyn bach yn hirach, a thaith pobl eraill tipyn bach yn llai.




SUT BYDD YR ADEILAD NEWYDD YN EDRYCH AR ÔL Y NEWIDIADAU?


Bydd gan yr ysgol newydd:

 ystafelloedd modern, a
lliwgar i bob disgybl

 neuadd/ardal fwyta
newydd

 llyfrgell newydd

 lleoedd awyr agored
gwyh, gan gynnwys
ystafell ddsbarth
awyr agored ac ardal
'ysgolion coedwig'

 arhosfan bws arbennig
er mwyn i'r bws eich
gollwng a chasglu

 maes parcio i'r staff

Does gyda ni ddim cynlluniau/lluniau i'w dangos i chi eto, ond dyma rai lluniau o ysgolion newydd eraill.





BETH ARALL YDYN NI EISIAU EI WNEUD?

Rydyn ni am edrych ar ba mor ddiogel yw'r llwybrau i'r ysgol newydd. Os bydd angen, byddwn ni'n gwella'r palmentydd a llwybrau cerdded, byddwn ni'n creu croesfannau newydd ac yn arafu'r traffig drwy roi twmpathau cyflymder neu osod arwyddion i sicrhau bod pawb yn dilyn y rheolau diogelwch ar y ffyrdd a gwneud pethau'n fwy diogel i chi.





BETH SYDD GYDA HYN I'W WNEUD GYDA FI?

Dydyn ni ddim yn credu y bydd y newidiadau hyn yn ddrwg i chi. Rydyn ni'n credu bod y newidiadau yn dda, ond rydyn ni am wybod beth yw eich barn chi.

Rydyn ni'n credu y bydd y newidiadau yma'n dda i'ch addysg chi. Mae'n bosibl y byddwch chi'n dysgu rhagor o ganlyniad i'r adeilad newydd a'r holl bethau newydd yn yr adeilad.

Y GYMRAEG:

Byddwch chi'n dal i ddysgu yn Gymraeg, fydd hyn ddim yn newid gan fod hyn yn bwysig iawn.

Rydyn ni'n credu y bydd y newidiadau yma'n rhoi cyfle i ragor o blant ddysgu yn Gymraeg.



CLUDIANT



Y newid mwyaf fydd y bydd eich ysgol newydd mewn lle gwahanol.

Er y bydd yr ysgol yn cael ei symud i le newydd, fydd y dalgyllch ddim yn newid.

Dalgyllch yw'r ardal o amgylch yr ysgol lle mae'r disgyblion yn byw. Felly mae hyn yn golygu y bydd yr un plant yn dal i allu mynd i'r ysgol newydd.

Bydd y Cyngor yn parhau i anfon bysiau i'r disgyblion deithio i'r ysgol, er y bydd yr ysgol mewn lle gwahanol.

Os yw rhai disgyblion yn byw yn agosach at yr ysgol oherwydd y newidiadau, yna efallai y bydd angen iddyn nhw ddechrau cerdded i'r ysgol.

Os yw rhai disgyblion yn byw'n bellach o'r ysgol newydd, yna efallai y bydd angen iddyn nhw ddechrau dal y bws yn lle cerdded.



BETH SY’N DIGWYDD NESAF?

Does dim un o’r newidiadau yma wedi’u penderfynu eto felly am nawr bydd eich ysgol yn aros yr un peth.

Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi am y newidiadau posibl yma.

Gallwch chi gymryd rhan a rhoi gwybod i ni beth yw eich barn chi rhwng 1 Mawrth a dydd Gwener 30 Ebrill.

Rydyn ni eisiau clywed eich cwestiynau a’ch sylwadau chi. Mae modd i chi rannu pethau da a drwg - rydyn ni eisiau gwybod clywed pob dim.

Gallwch chi roi gwybod i ni trwy e-bostio CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk . Gallwch chi ofyn i’ch athrawon neu’ch rhieni/gwarcheidwaid i helpu chi i gysylltu â ni.

Ar ôl i chi rannu eich barn gyda ni, bydd penderfyniad am symud ysgol neu beidio yn cael ei wneud.

Os byddwn ni’n penderfynu gwneud y cynlluniau yma ar gyfer ysgol newydd, byddwch chi’n gallu cysylltu gyda ni eto a rhoi gwybod i ni os dydych chi ddim eisiau i’r newidiadau yma ddigwydd. Byddwn ni’n rhoi gwybod i chi pan fydd modd i chi wneud hynny.

Bydd angen i chi ysgrifennu llythyr neu e-bost a’i anfon aton ni, gan ddweud pam dydych chi ddim eisiau i’r newidiadau ddigwydd. Bydd gyda chi 28 diwrnod i wneud hyn ac rwy’n siŵr y bydd eich athrawon a’ch rhieni/gwarcheidwaid chi’n gallu eich helpu chi i wneud hyn.

RHOWCH WYBOD I NI BETH YW EICH BARN.

Rydyn ni eisiau clywed eich barn chi!

Rydyn ni wir eisiau gwybod beth yw eich barn chi am ein cynlluniau i newid eich ysgol.

**Siaradwch â'ch athrawon neu rieni/
gwarcheidwaid a byddan nhw'n gallu
eich helpu chi**

**E-bostiwch ni:
cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk**

Cwestiwn

Cwestiwn 1:

Rydyn ni'n bwriadu symud YGG Llyn y Forwyn i adeilad newydd ar safle newydd.

Ydych chi'n cytuno â'r newid yma?

Ydw Nac ydw

Esboniwch pam:

Cwestiwn 2:

Ydych chi'n meddwl y bydd y newid yma'n helpu pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg?

Ydych chi'n cytuno â'r newid yma?

Ydw Nac ydw

Esboniwch pam:

Cwestiwn 3:

Ydych chi'n meddwl bod y newidiadau posib i'ch ysgol chi yn trin yr iaith Saesneg yn well na'r iaith Gymraeg?

Ydych chi'n cytuno â'r newid yma?

Ydw Nac ydw

Esboniwch pam:

Cwestiwn 4:

Sut ydych chi'n meddwl y gallwn ni wella'r effeithiau da ar y Gymraeg, a sut gallwn ni geisio rhwystro'r effeithiau gwael?

Rhowch wybod beth yw eich barn:

Cwestiwn 5:

Oes gyda chi unrhyw beth arall i'w ddweud?

